# Cyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais heblaw ei ymddiriedolwyr elusen

Dyddiad y cyfansoddiad (a ddiwygiwyd ddiwethaf): 20 Ionawr 2014

**1. Enw**

Enw'r Sefydliad Corfforedig Elusennol (“**yr Eisteddfod”**) yw **Eisteddfod Genedlaethol Cymru**

**2. Lleoliad cenedlaethol y brif swyddfa:**

Mae'n rhaid i brif swyddfa’r Eisteddfod fod yng Nghymru neu Loegr. Mae prif swyddfa’r Eisteddfod yng Nghymru.

**3. Amcanion**

Amcanion yr Eisteddfod yw, er budd y cyhoedd yng Nghymru a ledled y byd:

(i) hyrwyddo addysg y cyhoedd yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru, y gwyddorau a’r iaith Gymraeg; a

(ii) hyrwyddo, cadw a diogelu treftadaeth a diwylliant Cymru a’r iaith Gymraeg,

drwy unrhyw ddull a modd a wêl yr ymddiriedolwyr yn dda yn cynnwys trwy gynnal gŵyl genedlaethol yn flynyddol, sef Eisteddfod Genedlaethol Cymru (“**Gŵyl/yr Ŵyl**”).

Ni fydd unrhyw beth yn y cyfansoddiad hwn yn awdurdodi defnyddio eiddo’r Eisteddfod at ddibenion nad ydynt yn elusennol.

3A **Iaith**

Yr iaith Gymraeg fydd iaith yr Eisteddfod a’r Ŵyl ac ni fydd hawl newid y cymal hwn.

**4. Pwerau**

Mae pŵer gan yr Eisteddfod i wneud unrhyw beth a ystyrir ganddi er hyrwyddo ei hamcanion neu sy'n ffafriol neu'n atodol i wneud hynny. Yn arbennig, mae pwerau’r Eisteddfod yn cynnwys (heb gyfyngiad) y pwerau a ganlyn:

(1) benthyca arian ac arwystlo’r cyfan neu unrhyw ran o’i heiddo fel gwarant ar gyfer ad-dalu’r arian a fenthycwyd. Mae’n rhaid i’r Eisteddfod gydymffurfio fel y bo’n briodol ag adrannau 124 a 125 Deddf Elusennau 2011, os yw am forgeisio tir;

(2) prynu, cymryd ar brydles neu’n gyfnewid, hurio neu gaffael fel arall unrhyw eiddo a chynnal a chyfarparu’r eiddo i’w ddefnyddio;

(3) gwerthu, prydlesu neu waredu fel arall y cyfan neu unrhyw ran o’r eiddo y mae’r Eisteddfod yn berchen arno. Wrth arfer y pŵer hwn, mae’n rhaid i’r Eisteddfod

gydymffurfio fel y bo’n briodol ag adrannau 117 a 119-123 Deddf Elusennau 2011;

(4) cyflogi a thalu staff fel y bo angen am wneud gwaith yr Eisteddfod. Gall yr Eisteddfod gyflogi neu dalu i ymddiriedolwr elusen dim ond i'r graddau y caniateir iddi wneud hynny gan gymal 6 (Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr elusen ac unigolion cysylltiedig) ac ar yr amod ei bod yn cydymffurfio ag amodau'r cymalau hynny;

(5) adneuo neu fuddsoddi cronfeydd, cyflogi rheolwr cronfeydd proffesiynol, a threfnu i fuddsoddiadau neu eiddo arall yr Eisteddfod gael eu cadw yn enw enwebai; yn yr un modd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau ag y caniateir i ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth wneud hynny gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000.

**5. Defnyddio incwm ac eiddo**

(1) Mae'n rhaid i incwm ac eiddo’r Eisteddfod gael eu defnyddio i hyrwyddo'r amcanion yn unig.

(a) Mae hawl gan ymddiriedolwr elusen:
(i) i gael ei ad-dalu o eiddo’r Eisteddfod; neu
(ii) i wneud taliadau o’r fath eiddo ar gyfer,
treuliau rhesymol sydd wedi codi’n briodol wrth iddo weithredu ar ran yr Eisteddfod.

(b) Gall ymddiriedolwr elusen gael budd o yswiriant indemniad ymddiriedolwr a brynwyd ar draul yr Eisteddfod yn unol ag adran 189 Deddf Elusennau 2011 ac yn ddarostyngedig i’r amodau yn yr adran honno.

(2) Ni all unrhyw ran o incwm neu eiddo’r Eisteddfod gael eu talu na’u trosglwyddo'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol trwy gyfrwng difidend, bonws neu fel arall trwy gyfrwng elw i unrhyw aelod o’r Eisteddfod. Nid yw hyn yn atal aelod nad yw hefyd yn ymddiriedolwr elusen rhag cael:

(a) budd gan yr Eisteddfod fel buddiolwr yr Eisteddfod;

(b) taliad rhesymol a phriodol am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i’r Eisteddfod.

(3) Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn atal ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig rhag cael budd neu daliad wedi'i awdurdodi gan gymal 6.

**6. Buddion a thaliadau i ymddiriedolwr elusen ac unigolion cysylltiedig**

**(1) Darpariaethau cyffredinol**

Ni all unrhyw ymddiriedolwr elusen nac unigolyn cysylltiedig:

(a) brynu na dderbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan yr Eisteddfod ar delerau mwy ffafriol na’r rhai sy’n gymwys i aelodau’r cyhoedd;

(b) werthu nwyddau, gwasanaethau, nac unrhyw fudd mewn tir i’r Eisteddfod;

(c) gael ei gyflogi gan yr Eisteddfod, na dderbyn unrhyw dâl gan yr Eisteddfod;

(ch) gael unrhyw fudd ariannol arall gan yr Eisteddfod;

oni bai fod y taliad neu'r budd wedi'i ganiatáu gan is-gymal (2) o'r cymal hwn neu wedi'i awdurdodi gan lys barn neu gan y Comisiwn Elusennau ("**y Comisiwn**"). Yn y cymal hwn, ystyr "**budd ariannol**" yw budd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd naill ai'n arian neu sydd â gwerth ariannol.

**(2) Cwmpas a phwerau sy'n caniatáu buddion ymddiriedolwyr neu unigolion cysylltiedig**

(a) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn budd gan yr Eisteddfod fel buddiolwr yr Eisteddfod ar yr amod nad yw'r mwyafrif o'r ymddiriedolwyr yn cael budd yn y modd hwn.

(b) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig, trwy gontract, gyflenwi gwasanaethau, neu nwyddau sy'n cael eu cyflenwi mewn perthynas â darparu gwasanaethau, i'r Eisteddfod lle caniateir hynny yn unol ag adrannau 185 i 188 Deddf Elusennau 2011 ac yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr adrannau hynny.

(c) Yn amodol ar is-gymal (3) o'r cymal hwn gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig gyflenwi nwyddau i'r Eisteddfod lle nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir i'r Eisteddfod gan ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig.

(ch) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn llog ar arian a fenthycwyd i'r Eisteddfod ar gyfradd resymol a phriodol ond ni all fod yn fwy na chyfradd llog Banc Lloegr (hefyd yn cael ei alw "y gyfradd sylfaenol").

(d) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn rhent am adeiladau a osodir i'r Eisteddfod gan yr ymddiriedolwr neu'r unigolyn cysylltiedig. Mae'n rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y brydles fod yn rhesymol ac yn briodol. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr elusen dan sylw fod yn absennol o unrhyw gyfarfod lle mae cynnig o'r fath neu'r rhent neu delerau eraill y brydles yn cael eu trafod.

(dd) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig gymryd rhan mewn gweithgareddau masnachu a gweithgareddau codi arian arferol yr Eisteddfod ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

**(3) Taliad am gyflenwi nwyddau yn unig – rheolaethau**

Gall yr Eisteddfod a'i hymddiriedolwyr elusen ddibynnu ar yr awdurdod a ddarperir gan is-gymal (2)(c) o'r cymal hwn dim ond os yw pob un o'r amodau a ganlyn wedi'u bodloni:

(a) Rhaid nodi swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng yr Eisteddfod a'r ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ("**y cyflenwr**").

(b) Ni ddylai'r swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau fod yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau ar gyfer cyflenwi'r nwyddau dan sylw.

(c) Rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen eraill fod yn fodlon ei fod er lles gorau'r Eisteddfod i lunio contract gyda'r cyflenwr yn hytrach na chyda rhywun sydd heb fod yn

ymddiriedolwr elusen neu'n unigolyn cysylltiedig. Drwy wneud y penderfyniad hwnnw mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen bwyso a mesur manteision llunio contract gydag ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hynny.

(ch) Rhaid i’r cyflenwr fod yn absennol o’r rhan berthnasol o unrhyw gyfarfod sy'n trafod y cynnig i lunio contract neu drefniadau ag ef neu hi neu mewn perthynas â chyflenwi nwyddau i’r Eisteddfod.

(d) Ni chaiff y cyflenwr bleidleisio ar unrhyw fater o'r fath ac ni chaiff ei gyfrif wrth gyfrifo a oes cworwm o'r ymddiriedolwyr elusen yn bresennol yn y cyfarfod.

(dd) Rhaid i'r rheswm dros eu penderfyniad gael ei gofnodi gan yr ymddiriedolwyr elusen yn y llyfr cofnodion.

(e) Nid yw'r mwyafrif o'r ymddiriedolwyr elusen sydd yn eu swyddi yn derbyn tâl na thaliadau wedi'u hawdurdodi gan gymal 6.

(4) Yn is-gymalau (2) a (3) y cymal hwn:

(a) mae “Eisteddfod“ yn cynnwys unrhyw gwmni lle mae’r Eisteddfod yn:

(i) dal mwy na 50% o’r cyfranddaliadau; neu’n

(ii) rheoli mwy na 50% o’r hawliau pleidleisio sy’n gysylltiedig â’r cyfranddaliadau; neu’n

(iii) cael hawl i benodi un neu ragor o’r cyfarwyddwyr ar fwrdd y cwmni;

(b) mae “unigolyn cysylltiedig“ yn cynnwys unrhyw un o fewn y diffiniad a nodwyd yng nghymal 32 (Dehongli).

**7. Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch**

Mae'n rhaid i ymddiriedolwr elusen:

(1) ddatgan natur a gwerth unrhyw fudd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd ganddo neu ganddi mewn trafodiad neu drefniadau arfaethedig â’r Eisteddfod neu mewn unrhyw drafodiad neu drefniadau a luniwyd gan yr Eisteddfod sydd heb eu datgan cyn hynny; a

(2) bod yn absennol o unrhyw drafodaethau gan yr ymddiriedolwyr elusen lle mae'n bosibl y bydd gwrthdaro buddiannau'n codi rhwng dyletswydd i weithredu er lles yr Eisteddfod yn unig ac unrhyw fudd personol (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw fudd ariannol).

Ni all unrhyw ymddiriedolwr elusen sy'n absennol o unrhyw drafodaethau yn unol â'r cymal hwn bleidleisio na chael ei gyfrif yn rhan o'r cworwm ar gyfer unrhyw benderfyniad gan yr ymddiriedolwyr elusen ar y mater.

**8. Atebolrwydd aelodau i gyfrannu at asedau'r Eisteddfod os caiff ei dirwyn i ben**

Os yw'r Eisteddfod yn cael ei dirwyn i ben, nid oes unrhyw atebolrwydd gan aelodau'r Eisteddfod i gyfrannu at ei hasedau na chyfrifoldeb personol am dalu ei dyledion na chwrdd â'i rhwymedigaethau.

**9. Aelodaeth o'r Eisteddfod: Llys yr Eisteddfod**

**(1) Derbyn aelodau newydd**

**(a) Cymhwyster**

(i) Aelodau'r Eisteddfod sydd yn ffurfio Llys yr Eisteddfod.

(ii) Mae aelodaeth o'r Eisteddfod yn agored i unrhyw unigolyn:

(A) sydd yn aelod o'r elusen sydd wedi ei chofrestru o dan rif 114487 ar 31/12/2013; a/neu

(B) sydd yn aelod o'r elusen sydd wedi ei chofrestru o dan rif 219171 ar 31/12/2013; a/neu

(C) sydd â diddordeb mewn hyrwyddo dibenion yr Eisteddfod ac sydd, drwy wneud cais i fod yn aelod a thalu'r ffi aelodaeth briodol, wedi dangos ei fod yn cytuno i fod yn aelod ac wedi derbyn y ddyletswydd aelodau a amlinellir yn is-gymal (3) o'r cymal hwn.

**(b) Y drefn dderbyn**

Gall yr ymddiriedolwyr elusen:

(i) fynnu bod ceisiadau am aelodaeth yn cael eu gwneud mewn unrhyw ffordd resymol a benderfynir ganddynt;

(ii) wrthod cais am aelodaeth os ydynt yn credu ei fod er lles yr Eisteddfod iddynt wneud hynny.

Os bydd yr ymddiriedolwyr elusen yn penderfynu gwrthod cais am aelodaeth,

(iii) rhaid iddynt roi eu rhesymau i'r ymgeisydd dros wneud hynny o fewn 21 diwrnod o wneud y penderfyniad, gan roi cyfle i'r ymgeisydd apelio yn erbyn gwrthod y cais; a

(iv) byddant yn rhoi ystyriaeth deg i unrhyw apêl o'r fath, ac yn hysbysu'r ymgeisydd am eu penderfyniad. Bydd unrhyw benderfyniad i gadarnhau bod y cais am aelodaeth yn cael ei wrthod yn derfynol.

**(2) Trosglwyddo aelodaeth**

Ni ellir trosglwyddo aelodaeth o'r Eisteddfod i unrhyw un arall.

**(3) Dyletswydd aelodau**

Dyletswydd pob aelod o’r Eisteddfod yw arfer ei bwerau fel aelod o’r Eisteddfod yn y ffordd y mae'n penderfynu mewn ewyllys da y byddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion yr Eisteddfod.

**(4) Terfynu aelodaeth**

(a) Daw aelodaeth o’r Eisteddfod i ben:

(i) os yw'r aelod yn marw; neu

(ii) os yw'r aelod yn anfon hysbysiad ymddiswyddo i'r ymddiriedolwyr elusen; neu

(iii) os yw unrhyw swm y mae'n rhaid i'r aelod ei dalu i’r Eisteddfod heb gael ei dalu’n llawn cyn pen tri mis o'r dyddiad y mae'n ddyledus;

(iv) os yw'r ymddiriedolwyr elusen yn penderfynu ei fod er Iles gorau’r Eisteddfod i derfynu aelodaeth yr aelod dan sylw, a phasio cynnig i'r perwyl hwnnw.

(b) Cyn bod yr ymddiriedolwyr elusen yn gwneud unrhyw benderfyniad i derfynu aelodaeth o’r Eisteddfod mae'n rhaid iddynt:

(i) hysbysu'r aelod am y rhesymau pam y cynigir terfynu ei aelodaeth;

(ii) rhoi o leiaf 21 diwrnod clir o rybudd i'r aelod wneud sylwadau i'r ymddiriedolwyr elusen gan esbonio pam na ddylid terfynu ei aelodaeth;

(iii) mewn cyfarfod o’r ymddiriedolwyr elusen gyda chyfansoddiad priodol, ystyried a ddylid terfynu aelodaeth yr aelod neu beidio;

(iv) ystyried yn y cyfarfod hwnnw unrhyw sylwadau y mae’r aelod yn eu gwneud i esbonio pam na ddylid terfynu ei aelodaeth; a

(v) caniatáu i’r aelod, neu gynrychiolydd yr aelod, wneud sylwadau’n bersonol yn y cyfarfod hwnnw, os yw’r aelod yn dewis gwneud hynny.

**(5) Ffïoedd aelodaeth**

Gall yr Eisteddfod fynnu bod aelodau’n talu ffïoedd aelodaeth i’r Eisteddfod.

**10. Penderfyniadau Llys yr Eisteddfod**

**(1) Darpariaethau cyffredinol**

Ac eithrio’r penderfyniadau a nodir yn is-gymal (4) o'r cymal hwn, mae penderfyniadau aelodau’r Eisteddfod yn cael eu gwneud drwy bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol fel y darperir yn is-gymal (2) o'r cymal hwn.

**(2) Gwneud penderfyniadau cyffredin drwy bleidlais**

Yn amodol ar is-gymal (4) o'r cymal hwn, gall unrhyw benderfyniad gan aelodau'r Eisteddfod gael ei wneud drwy gyfrwng cynnig mewn cyfarfod cyffredinol. Gall cynnig o'r fath gael ei basio gan fwyafrif syml o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn y cyfarfod.

**(3) Penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud mewn ffordd arbennig**

(a) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddiswyddo ymddiriedolwr gael ei wneud yn unol â chymal 15(2).

(b) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddiwygio'r cyfansoddiad hwn gael ei wneud yn unol â chymal 30 o'r cyfansoddiad hwn (Diwygio'r Cyfansoddiad).

(c) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddirwyn yr Eisteddfod i ben neu ei diddymu gael ei wneud yn unol â chymal 31 o'r cyfansoddiad hwn (Dirwyn i ben neu ddiddymu gwirfoddol). Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i uno neu drosglwyddo ymrwymiadau'r Eisteddfod i un neu ragor o Sefydliadau Corfforedig Elusennol eraill gael ei wneud yn unol â darpariaethau Deddf Elusennau 2011.

**11. Cyfarfodydd cyffredinol o'r aelodau: Llys yr Eisteddfod**

**(1) Mathau o gyfarfod cyffredinol**

Mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol o aelodau'r Eisteddfod (sef cyfarfod blynyddol Llys yr Eisteddfod). Mae'n rhaid cynnal y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf o fewn 18 mis o gofrestru'r Eisteddfod, a chyfarfodydd cyffredinol blynyddol dilynol o fewn cyfnodau o ddim mwy na 15 mis. Mae'n rhaid i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol ystyried y datganiad o gyfrifon blynyddol (wedi'i archwilio'n ariannol neu ei archwilio'n annibynnol fel y bo'n gymwys) ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, ac mae'n rhaid ethol ymddiriedolwyr yn ôl y gofyn o dan gymal 13.

Gall cyfarfodydd cyffredinol eraill o aelodau'r Eisteddfod (cyfarfodydd Llys yr Eisteddfod) gael eu cynnal unrhyw bryd.

Mae'n rhaid i bob cyfarfod cyffredinol gael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau a ganlyn.

**(2) Galw cyfarfodydd cyffredinol**

(a) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen alw cyfarfod blynyddol Llys yr Eisteddfod yn unol ag is-gymal (1) o'r cymal hwn, a'i nodi felly yn yr hysbysiad o'r cyfarfod.

(b) Yn ychwanegol i'r cyfarfod blynyddol mae hawl gan yr ymddiriedolwyr elusen i alw cyfarfod Llys yr Eisteddfod unrhyw bryd.

(c) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen alw cyfarfod Llys yr Eisteddfod o fewn 21 diwrnod:

(i) os ydynt yn cael cais i wneud hynny gan o leiaf bum deg (50) o aelodau'r Eisteddfod; ac

(ii) os yw'r cais yn datgan natur gyffredinol y busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod, a'i ddilysu gan yr aelod(au) sy'n gwneud y cais drwy nodi enw(au) llawn, llofnod a chyfeiriad yr aelod(au).

(ch) Oni fu, ar ddyddiad derbyn unrhyw gais o'r fath, unrhyw gyfarfod cyffredinol o aelodau'r Eisteddfod am fwy na 12 mis, yna bydd is-gymal (b)(i) o'r cymal hwn yn weithredol fel pe bai pump ar hugain (25) yn disodli pum deg (50).

(d) Gall unrhyw gais o'r fath gynnwys manylion cynnig y gellir ei gyflwyno'n briodol, ac y bwriedir iddo gael ei gyflwyno yn y cyfarfod.

(dd) Ni all cynnig gael ei gyflwyno'n briodol onid yw'n gyfreithlon, a heb fod yn ddifenwol, yn wacsaw nac yn flinderus.

(e) Mae'n rhaid cynnal unrhyw gyfarfod cyffredinol a elwir gan yr ymddiriedolwyr elusen yn dilyn cais gan aelodau'r Eisteddfod dan is-gymal (c) y cymal hwn o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y mae'n cael ei alw.

(f) Os nad yw'r ymddiriedolwyr elusen yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon i alw cyfarfod cyffredinol ar gais ei aelodau, yna gall yr aelodau a ofynnodd am y cyfarfod alw cyfarfod cyffredinol eu hunain.

(ff) Mae'n rhaid i gyfarfod cyffredinol sy'n cael ei alw o dan is-gymal (f) o'r cymal hwn gael ei gynnal ddim mwy na 3 mis ar ôl y dyddiad pan wnaeth yr aelodau gais am y cyfarfod gyntaf.

(g) Mae'n rhaid i'r Eisteddfod ad-dalu unrhyw gostau rhesymol yr aelodau sy'n galw cyfarfod cyffredinol drwy rinwedd methiant ar ran yr ymddiriedolwyr elusen i alw'r cyfarfod yn briodol, ond bydd hawl gan yr Eisteddfod i gael ei hindemnio gan yr ymddiriedolwyr elusen oedd yn gyfrifol am fethiant o'r fath.

**(3) Hysbysiad o gyfarfodydd cyffredinol**

(a) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen neu, yn ôl yr achos, aelodau perthnasol o'r Eisteddfod, roi o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd o unrhyw gyfarfod cyffredinol i bob aelod, ac i unrhyw ymddiriedolwr elusen yr Eisteddfod nad yw'n aelod.

(b) Os cytunir gan o leiaf 90% o holl aelodau'r Eisteddfod, gall unrhyw gynnig gael ei gyflwyno a'i basio yn y cyfarfod er nad yw gofynion is-gymal (3)(a) y cymal hwn wedi eu cwrdd. Nid yw'r is-gymal hwn yn gymwys os yw cymal arall yn y cyfansoddiad hwn, Deddf Elusennau 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol yn gofyn yn benodol am gyfnod penodedig o rybudd.

(c) Mae'n rhaid i'r hysbysiad o unrhyw gyfarfod cyffredinol:

(i) nodi amser a dyddiad y cyfarfod;

(ii) nodi'r cyfeiriad lle y bwriedir cynnal y cyfarfod;

(iii) gynnwys manylion unrhyw gynnig sydd i'w roi gerbron y cyfarfod, a natur gyffredinol unrhyw fusnes arall sydd i'w drafod yn y cyfarfod; a

(iv) chynnwys testun unrhyw newid arfaethedig i gyfansoddiad yr Eisteddfod sydd i'w ystyried yn y cyfarfod.

(ch) Mae'n rhaid i'r hysbysiad o gyfarfod cyffredinol blynyddol gynnwys y datganiad blynyddol o gyfrifon ac adroddiad yr ymddiriedolwyr, manylion y bobl sy'n sefyll i'w hethol neu eu hailethol fel ymddiriedolwr, neu os caniateir o dan gymal 22 (Defnyddio cyfathrebu electronig), fanylion sy'n dangos ble y gellir cael hyd i'r wybodaeth ar wefan yr Eisteddfod.

(d) Bydd prawf bod amlen sy'n cynnwys rhybudd wedi cael ei chyfeirio'n briodol a'i hanfon yn rhagdaledig, neu fod ffurf electronig o rybudd wedi cael ei gyfeirio'n briodol a'i anfon, yn dystiolaeth derfynol bod rhybudd wedi cael ei roi. Ystyrir bod rhybudd wedi cael ei roi 48 awr ar ôl iddo gael ei bostio neu ei anfon.

(dd) Ni fydd trafodion cyfarfod yn cael eu hannilysu oherwydd nad oedd aelod a oedd â hawl i gael rhybudd o'r cyfarfod heb dderbyn rhybudd am fod yr Eisteddfod wedi'i hepgor yn ddamweiniol.

**(4) Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol**

(a) Llywydd Llys yr Eisteddfod fydd yn cadeirio cyfarfodydd cyffredinol.

(b) Os yw Llywydd Llys yr Eisteddfod yn amharod i lywyddu neu'n absennol o fewn 10 munud ar ôl yr amser a drefnwyd i gynnal y cyfarfod, Cadeirydd y Cyngor fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

(c) Os yw Cadeirydd y Cyngor yn amharod i lywyddu neu'n absennol o fewn 10 munud ar ôl yr amser a drefnwyd i gynnal y cyfarfod, Is-Gadeirydd y Cyngor fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

**(5) Cworwm mewn cyfarfodydd cyffredinol**

(a) Ni all unrhyw fusnes gael ei drafod mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol o aelodau'r Eisteddfod oni bai fod cworwm yn bresennol pan fydd y cyfarfod yn dechrau.

(b) Yn amodol ar y darpariaethau a ganlyn, y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol fydd tri deg (30) aelod.

(c) Os yw'r cyfarfod wedi cael ei alw gan neu ar gais yr aelodau ac onid oes cworwm yn bresennol o fewn 30 munud o'r amser dechrau a bennwyd yn yr hysbysiad o'r cyfarfod, daw'r cyfarfod i ben.

(ch) Os yw'r cyfarfod wedi cael ei alw mewn unrhyw ffordd arall ac onid oes cworwm yn bresennol o fewn 15 munud o'r amser dechrau a bennwyd yn yr hysbysiad o'r cyfarfod, mae'n rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod. Mae gan y cadeirydd

ddisgresiwn i ohirio'r cyfarfod naill ai tan (i) amser hwyrach y diwrnod hwnnw neu (ii) tan ddiwrnod arall. Os bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio tan ddiwrnod arall bydd dyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r cyfarfod naill ai i'w gyhoeddi gan y cadeirydd neu i'w hysbysu i aelodau'r Eisteddfod o leiaf saith diwrnod clir cyn y dyddiad y bydd yn ailddechrau.

(d) Os nad oes cworwm yn bresennol o fewn 15 munud o amser dechrau cyfarfod gohiriedig a gynhelir o dan (ch) uchod, mae'r aelod neu'r aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn cael ei ystyried yn gworwm.

(dd) Os ar unrhyw adeg yn ystod cyfarfod y mae cworwm yn peidio â bod yn bresennol, gall y cyfarfod drafod materion a gwneud argymhellion i'r ymddiriedolwyr ond ni all wneud unrhyw benderfyniadau. Os oes angen gwneud penderfyniadau, mae'n rhaid gohirio'r cyfarfod.

**(6) Pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol**

(a) Bydd unrhyw benderfyniad heblaw un sydd wedi'i gynnwys o fewn cymal 10(4) (Penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud mewn ffordd arbennig) yn cael ei wneud gan fwyafrif syml o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn y cyfarfod. Mae un bleidlais gan bob aelod.

(b) Bydd cynnig i bleidleisio arno yn y cyfarfod yn cael ei benderfynu trwy ddangos dwylo, oni bai fod galwad am gyfrif pleidleisiau cyn neu wrth gyhoeddi canlyniad dangos dwylo. Gall y cadeirydd neu o leiaf 10% o'r aelodau sy'n bresennol yn bersonol fynnu bod pleidlais yn cael ei chynnal.

(c) Os oes cais i gyfrif pleidleisiau ar gyfer ethol unigolyn i gadeirio cyfarfod neu ar gwestiwn o ohirio'r cyfarfod, rhaid cyfrif y pleidleisiau a chyhoeddi'r canlyniad ar unwaith. Bydd pleidlais ar unrhyw fater arall yn cael ei chymryd, a bydd canlyniad y bleidlais yn cael ei gyhoeddi, yn y dull a benderfynir gan gadeirydd y cyfarfod, ar yr amod bod rhaid i'r bleidlais gael ei chymryd, a bod rhaid cyhoeddi canlyniad y bleidlais, o fewn 30 diwrnod o'r cais i gynnal pleidlais.

(ch) Gall pleidlais gael ei chymryd:

(i) yn y cyfarfod lle y cafodd ei galw; neu

(ii) ar ryw adeg ac mewn lleoliad arall a bennir gan y cadeirydd; neu

(iii) drwy ddefnyddio cyfathrebu drwy'r post neu gyfathrebu electronig.

(d) Yn achos pleidleisiau cyfartal, boed drwy ddangos dwylo neu drwy gyfrif pleidleisiau, bydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw gan gadeirydd y cyfarfod.

(dd) Rhaid i unrhyw wrthwynebiad i gymhwyster unrhyw bleidleisiwr gael ei godi yn y cyfarfod lle mae'r bleidlais yn cael ei bwrw a bydd penderfyniad cadeirydd y cyfarfod yn derfynol.

**(7) Gohirio cyfarfodydd**

Gall y cadeirydd gyda chydsyniad cyfarfod lle mae cworwm yn bresennol (a bydd yn gwneud hynny os caiff ei gyfarwyddo gan y cyfarfod) ohirio'r cyfarfod i amser a/neu leoliad arall. Ni ellir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod a ohiriwyd ac eithrio busnes y gellid bod wedi ei drafod yn briodol yn y cyfarfod gwreiddiol.

**12. Ymddiriedolwyr elusen**

**(1) Swyddogaethau a dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen**

Bydd yr ymddiriedolwyr elusen yn rheoli busnes yr Eisteddfod ac er mwyn cyflawni'r diben hwnnw gallant arfer holl bwerau'r Eisteddfod sydd heb gael eu cadw'n ôl i'r Cyngor neu i gyfarfod cyffredinol o Lys yr Eisteddfod ac sydd wedi'u rhestru yn y Rheolau Sefydlog (Atodiad 1). Mae dyletswydd gan bob ymddiriedolwr elusen i:

(a) arfer ei bwerau a chyflawni ei swyddogaethau fel ymddiriedolwr yr Eisteddfod yn y ffordd y penderfyna mewn ewyllys da y byddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion yr Eisteddfod; ac

(b) arfer, wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny, y fath ofal a medr ag y bo'n rhesymol yn yr amgylchiadau, gan roi ystyriaeth arbennig i:

(i) unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig sydd ganddo neu ganddi neu yr honnir sydd ganddo / ganddi; ac

(ii) os yw'n gweithredu fel ymddiriedolwr elusen yr Eisteddfod yn rhinwedd busnes neu broffesiwn, unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig y mae'n rhesymol ei ddisgwyl gan rywun sy'n gweithredu yn rhinwedd y math hwnnw o fusnes neu broffesiwn.

**(2) Cymhwyster i fod yn ymddiriedolwr**

(a) Mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr elusen fod yn berson naturiol.

(b) Mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr elusen fod yn aelod o Lys yr Eisteddfod.

(c) Ni ellir penodi unrhyw un yn ymddiriedolwr elusen:

- os yw'n iau nag 16 oed; neu
- pe byddai'n peidio â dal swydd yn awtomatig o dan ddarpariaethau cymal 15(1)(dd).

(ch) Ni fydd hawl gan unrhyw un i weithredu fel ymddiriedolwr elusen pan gaiff ei benodi neu ei ailbenodi hyd nes ei fod wedi cydnabod yn benodol, ym mha bynnag ffordd a benderfynir gan yr ymddiriedolwyr elusen, ei fod yn derbyn swydd ymddiriedolwr elusen.

(d) Mae'n rhaid i o leiaf un o ymddiriedolwyr yr Eisteddfod fod yn 18 oed neu'n hŷn. Os nad oes unrhyw ymddiriedolwr sydd yn 18 oed o leiaf, ni all yr ymddiriedolwr neu'r

ymddiriedolwyr sy'n weddill weithredu ond i alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr elusen a phenodi ymddiriedolwr elusen newydd.

**(3) Nifer yr ymddiriedolwyr elusen**

(a) Dylai fod:

(i) dim mwy na thri (3) **ymddiriedolwr *ex officio***, sef Llywydd Llys yr Eisteddfod, Cadeirydd Cyngor yr Eisteddfod, ac Is-gadeirydd y Cyngor; a

(ii) dim llai na phedwar (4) na mwy na chwech (6) **ymddiriedolwr etholedig** yn unol â chymal 13(2); a

(iii) dim llai na phedwar (4) na mwy nag wyth (8) **ymddiriedolwr enwebedig** yn unol â chymal 13(3); a

(iv) dim mwy na dau (2) **ymddiriedolwr cyfetholedig** wedi eu henwebu yn unol â chymal 13(4).

(b) Mae'n rhaid cael o leiaf pump (5) ymddiriedolwr elusen. Os yw'r nifer yn is na'r isafswm hwn, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr neu'r ymddiriedolwyr sy'n weddill weithredu dim ond i alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr elusen a phenodi ymddiriedolwr elusen newydd.

(c) Mae'r nifer mwyaf o ymddiriedolwyr elusen y gellir eu penodi wedi'u nodi yn is-gymal (a) o'r cymal hwn. Ni all ymddiriedolwr gael ei benodi os yw'n mynd â'r nifer yn fwy na'r darpariaethau hyn.

**(4) Ymddiriedolwyr elusen cyntaf**

Ymddiriedolwyr elusen cyntaf yr Eisteddfod yw tanysgrifwyr y cyfansoddiad hwn, sef:

Stuart Cole
Eric Davies
Prydwen Elfed-Owens
Garry Nicholas
Dyfrig Roberts
Dafydd Roberts
Catrin Stevens

**13. Penodi ymddiriedolwyr elusen**

**(1) Ymddiriedolwyr *ex officio***

Bydd Llywydd Llys yr Eisteddfod, Cadeirydd y Cyngor ac Is-gadeirydd y Cyngor am y tro drwy rinwedd dal y swydd honno ("***ex officio***"), yn ymddiriedolwyr elusen yn awtomatig.

**(2) Ymddiriedolwyr elusen etholedig**

(a) Ym mhob cyfarfod blynyddol o Lys yr Eisteddfod, bydd un rhan o dair o'r ymddiriedolwyr elusen etholedig yn ymddeol o'u swydd. Os nad yw nifer yr ymddiriedolwyr elusen etholedig yn dri neu'n lluosrif o dri, yna bydd y nifer sydd agosaf at un rhan o dair yn ymddeol o'u swydd, ond os dim ond un ymddiriedolwr elusen etholedig sydd, bydd ef neu hi yn ymddeol;

(b) Yr ymddiriedolwyr elusen etholedig fydd yn ymddeol yn eu tro fydd y rhai sydd wedi bod yn y swydd am y cyfnod hiraf ers eu penodiad neu eu hail benodiad diwethaf. Os cafodd unrhyw ymddiriedolwyr ei benodi neu ei ailbenodi ar yr un diwrnod, penderfynir pwy fydd yn ymddeol (oni bai eu bod yn cytuno fel arall ymysg ei gilydd) trwy fwrw coelbren;

(c) Penodir ymddiriedolwyr elusen etholedig trwy benderfyniad aelodau yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Gall unrhyw swyddi gwag sydd heb eu llenwi mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol gael eu llenwi fel y darperir ar ei gyfer yn is-gymal (ch) o'r cymal hwn;

(ch) Gall yr aelodau neu'r ymddiriedolwyr elusen benderfynu unrhyw bryd i benodi ymddiriedolwr elusen newydd, boed yn lle ymddiriedolwr elusen sydd wedi ymddeol neu wedi cael ei ddiswyddo yn unol â chymal 15 (Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr elusen), neu fel ymddiriedolwr elusen ychwanegol, yn amodol ar beidio ag ychwanegu at y nifer penodedig yng nghymal 12(3);

(d) Bydd unrhyw un a benodir dan is-gymal (ch) gan aelodau'r Eisteddfod yn ymddeol yn unol â darpariaethau is-gymalau (a) a (b) y cymal hwn. Bydd unrhyw un a benodir felly gan yr ymddiriedolwyr elusen yn ymddeol ar ddiwedd y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf yn dilyn dyddiad ei benodiad, ac ni chaiff ei gyfrif at ddiben penderfynu pa rai o'r ymddiriedolwyr elusen fydd yn ymddeol yn eu tro yn y cyfarfod hwnnw.

**(3) Ymddiriedolwyr Elusen Enwebedig**

(a) Mae pob corff sydd wedi'i enwi isod yn "**gorff sy'n enwebu**".

(i) Gall Bwrdd yr Orsedd enwebu un (1) ymddiriedolwr elusen am gyfnod o hyd at dair (3) blynedd.

(ii) Gall Pwyllgor Gwaith pob Gŵyl enwebu un (1) ymddiriedolwr elusen am gyfnod o hyd at ddiwedd Awst yn y flwyddyn wedi'r flwyddyn y cynhaliwyd yr Ŵyl.

(iii) Gall y Cyngor enwebu hyd at bedwar (4) ymddiriedolwr elusen am gyfnod o hyd at dair (3) blynedd.

(b) Rhaid i unrhyw enwebiad gael ei wneud mewn cyfarfod a gynhelir yn unol â Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod.

(c) Bydd penodiad ymddiriedolwr elusen enwebedig yn effeithiol o ddiwrnod cyntaf y mis ar ôl y dyddiad yr hysbysir Ysgrifennydd Llys yr Eisteddfod am yr enwebiad.

(ch) Nid oes rhaid i'r sawl a enwebir fod yn aelod o'r corff sy'n enwebu.

(d) Mae gan ymddiriedolwr elusen enwebedig yr un ddyletswydd o dan gymal 12 â'r ymddiriedolwyr elusen eraill i weithredu mewn ffordd y penderfyna mewn ewyllys da a fyddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion yr Eisteddfod.

**(4) Ymddiriedolwyr Cyfetholedig**

(a) Bydd hawl gan yr ymddiriedolwyr elusen i gyfethol yn ymddiriedolwr elusen ar unrhyw adeg hyd at ddau (2) berson sydd â chymwysterau addas, gan roi sylw arbennig i'r angen i sicrhau cydbwysedd sgiliau o fewn y bwrdd ymddiriedolwyr.

(b) Bydd ymddiriedolwr elusen sydd wedi cael ei gyfethol yn unol ag is-gymal (a) o'r cymal hwn yn cael ei benodi hyd at gyfarfod blynyddol nesaf Llys yr Eisteddfod yn unig ond bydd hawl gan yr ymddiriedolwyr i ailgyfethol yr unigolyn gyda chaniatâd cyfarfod blynyddol Llys yr Eisteddfod.

**14. Gwybodaeth i ymddiriedolwyr elusen newydd**

Bydd yr ymddiriedolwyr elusen yn darparu'r canlynol i bob ymddiriedolwr elusen newydd, ar neu cyn ei benodiad cyntaf:

(a) copi o'r cyfansoddiad hwn ac unrhyw newidiadau a wnaed iddo; a

(b) chopi o adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr elusen a datganiad o gyfrifon diweddaraf yr Eisteddfod.

**15. Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr elusen**

(1) Bydd ymddiriedolwr elusen yn peidio â dal swydd os yw'n:

(a) ymddeol drwy hysbysu Ysgrifennydd Llys yr Eisteddfod drwy lythyr (ond ni fydd hawl ymddeol oni fydd digon o ymddiriedolwyr elusen yn parhau yn eu swydd pan fydd yr hysbysiad ymddiswyddo yn weithredol i ffurfio cworwm ar gyfer cyfarfodydd).

(b) absennol heb ganiatâd yr ymddiriedolwyr elusen o dri (3) chyfarfod yn olynol.

(c) marw;

(ch) analluog oherwydd anhwylder meddyliol, salwch neu anaf ac yn methu rheoli a gweinyddu ei fusnes ei hun;

(d) cael ei ddiswyddo gan aelodau'r Eisteddfod yn unol ag is-gymal (2) o'r cymal hwn; neu

(dd) wedi'i wahardd rhag gweithredu fel ymddiriedolwr elusen yn ôl adran 178-180 Deddf Elusennau 2011 (neu unrhyw ail ddeddfiad neu addasiad statudol o'r ddarpariaeth honno).

(2) Caiff ymddiriedolwr elusen ei ddiswyddo o'i swydd os yw cynnig i ddiswyddo'r ymddiriedolwr hwnnw yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod cyffredinol o'r aelodau a alwyd at y diben hwnnw ac sydd wedi'i gynnull yn briodol yn unol â chymal 11, ac mae'r cynnig yn cael ei basio gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn y cyfarfod.

(3) Ni fydd cynnig i ddiswyddo ymddiriedolwr elusen yn unol â'r cymal hwn yn weithredol oni bai bod yr unigolyn dan sylw:

(i) wedi cael o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd ysgrifenedig bod y cynnig yn cael ei gyflwyno, gan nodi'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn cyfiawnhau ei ddiswyddo o'r swydd; ac

(ii) wedi cael cyfle rhesymol i wneud sylwadau llafar a/neu ysgrifenedig i aelodau'r Eisteddfod.

(4) Os bydd ymddiriedolwr elusen *ex officio* yn peidio â dal swydd ymddiriedolwr elusen, ar yr un dyddiad bydd hefyd yn peidio â dal pa bynnag swydd sy'n berthnasol fel y nodir yng nghymal 13(1).

**16. Ailbenodi ymddiriedolwyr elusen**

Mae unrhyw un sy'n ymddeol fel ymddiriedolwr elusen yn ei dro neu drwy roi rhybudd i'r Eisteddfod yn gymwys i'w ailbenodi. Ni all ymddiriedolwr elusen sydd wedi gwasanaethu am dri chyfnod olynol gael ei ailbenodi am bedwerydd cyfnod olynol oni bai fod yr ail benodiad hwnnw wedi cael ei gadarnhau trwy benderfyniad wedi ei basio gan o leiaf ddwy ran o dair o aelodau'r Llys sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol.

**17. Ymddiriedolwyr elusen yn gwneud penderfyniadau**

Gall unrhyw benderfyniad gael ei wneud naill ai:

- yng nghyfarfod yr ymddiriedolwr elusen; neu
- drwy gynnig ysgrifenedig neu electronig wedi'i gytuno gan bob un o'r ymddiriedolwyr elusen, a allai gynnwys un ddogfen neu sawl dogfen sy'n cynnwys testun y cynnig yn yr un ffurf gydag un neu ragor o'r ymddiriedolwyr elusen wedi nodi eu bod yn cytuno ar bob dogfen.

**18. Dirprwyo gan ymddiriedolwyr elusen**

(1) Gall yr ymddiriedolwyr elusen ddirprwyo unrhyw bwerau neu swyddogaethau sydd ganddynt i bwyllgor neu bwyllgorau, ac os ydynt yn gwneud hynny mae'n rhaid iddynt bennu'r telerau a'r amodau ar gyfer dirprwyo. Gall yr ymddiriedolwyr elusen addasu'r telerau a'r amodau hynny unrhyw bryd, neu ddiddymu'r ddirprwyaeth.

(2) Mae'r pŵer hwn yn ychwanegol i'r pŵer dirprwyo yn y Rheoliadau Cyffredinol ac unrhyw bŵer arall i ddirprwyo sydd ar gael i'r ymddiriedolwyr elusen, ond mae'n amodol ar y gofynion a ganlyn:

(a) gall pwyllgor gynnwys dau unigolyn neu ragor, ond mae'n rhaid i o leiaf un aelod o bob pwyllgor fod yn ymddiriedolwr elusen;

(b) mae'n rhaid i weithredoedd a thrafodion unrhyw bwyllgor gael eu dwyn i sylw'r ymddiriedolwyr elusen fel cyfangorff cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol; ac

(c) o bryd i'w gilydd bydd yr ymddiriedolwyr elusen yn adolygu'r trefniadau ar gyfer dirprwyo eu pwerau.

**19. Cyfarfodydd a thrafodion ymddiriedolwyr elusen**

**(1) Galw cyfarfodydd**

(a) Gall unrhyw ymddiriedolwr elusen alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr elusen.

(b) Yn amodol ar hynny, bydd yr ymddiriedolwyr elusen yn penderfynu sut y caiff eu cyfarfodydd eu galw, a pha rybudd sydd ei angen.

**(2) Cadeirio cyfarfodydd**

(a) Llywydd Llys yr Eisteddfod fydd yn cadeirio cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr elusen.

(b) Os yw Llywydd Llys yr Eisteddfod yn amharod i lywyddu neu'n absennol o fewn 10 munud ar ôl yr amser a drefnwyd i gynnal y cyfarfod, Cadeirydd y Cyngor fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

(c) Os yw Cadeirydd y Cyngor yn amharod i lywyddu neu'n absennol o fewn 10 munud ar ôl yr amser a drefnwyd i gynnal y cyfarfod, Is-Gadeirydd y Cyngor fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

**(3) Y drefn mewn cyfarfodydd**

(a) Ni chaiff unrhyw benderfyniad ei wneud mewn cyfarfod oni bai fod cworwm yn bresennol ar yr adeg pan gaiff y penderfyniad ei wneud. Y cworwm yw dau ymddiriedolwr elusen, neu'r nifer agosaf i un rhan o dair o gyfanswm nifer yr ymddiriedolwyr elusen, p'un bynnag yw'r mwyaf, neu nifer mwy a all gael ei benderfynu o bryd i'w gilydd gan yr ymddiriedolwyr elusen a'i gadarnhau yn Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod. Ni chaiff ymddiriedolwr ei gyfrif yn y cworwm sy'n bresennol pan fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud ynghylch mater nad oes hawl gan yr ymddiriedolwr hwnnw i bleidleisio arno.

(b) Bydd cwestiynau sy'n codi mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu gan fwyafrif o'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio.

(c) Yn achos pleidleisiau cyfartal, bydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw gan y cadeirydd.

**(4) Cymryd rhan mewn cyfarfodydd drwy ddull electronig**

(a) Gall cyfarfod gael ei gynnal drwy ddull electronig addas (er enghraifft cyfarfod dros y ffôn neu alwadau cynadledda) a gytunwyd gan yr ymddiriedolwyr elusen lle y gall pob cyfranogwr gyfathrebu â phob un o'r cyfranogwyr eraill.

(b) Bydd unrhyw ymddiriedolwr elusen sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod drwy ddull electronig addas a gytunwyd gan yr ymddiriedolwyr elusen (lle y gall y cyfranogwr neu'r cyfranogwyr gyfathrebu â'r holl gyfranogwyr eraill) yn gymwys i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

(c) Mae'n rhaid i gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal drwy ddull electronig gydymffurfio â'r rheolau ar gyfer cyfarfodydd, gan gynnwys cadeirio a chymryd cofnodion.

**20. Darpariaethau arbed**

(1) Yn amodol ar is-gymal (2) y cymal hwn, bydd pob penderfyniad a wneir gan yr ymddiriedolwyr elusen, neu gan bwyllgor yr ymddiriedolwyr elusen, yn ddilys heb ystyried cyfranogiad mewn unrhyw bleidlais gan ymddiriedolwr elusen:

- a oedd wedi'i anghymhwyso rhag dal swydd; neu
- a oedd wedi ymddeol cyn hynny neu yr oedd yn ofynnol iddo neu iddi adael y swydd yn ôl y cyfansoddiad; neu
- a oedd heb hawl i bleidleisio ar y mater, oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall;

os, heb bleidlais yr ymddiriedolwr elusen hwnnw a heb gyfrif yr ymddiriedolwr elusen yn y cworwm, y gwnaed y penderfyniad gan fwyafrif o'r ymddiriedolwyr elusen mewn cyfarfod â chworwm.

(2) Nid yw is-gymal (1) y cymal hwn yn caniatáu i ymddiriedolwr elusen gadw unrhyw fudd y gall unrhyw gynnig gan yr ymddiriedolwr elusen neu bwyllgor o'r ymddiriedolwyr elusen ei roi iddo neu iddi os, oni bai am gymal (1), y byddai'r cynnig wedi bod yn annilys, neu os nad yw'r ymddiriedolwyr elusen wedi cydymffurfio â chymal 7 (Gwrthdaro buddiannau).

**21. Cyflawni dogfennau**

(1) Bydd yr Eisteddfod yn cyflawni dogfennau naill ai drwy lofnod neu drwy osod ei sêl (os oes sêl gan yr Eisteddfod).

(2) Mae dogfen wedi'i chyflawni'n ddilys drwy lofnod os yw'n cael ei llofnodi yn unol â darpariaethau'r Rheolau Sefydlog neu gan o leiaf ddau o'r ymddiriedolwyr elusen.

(3) Os oes sêl gan yr Eisteddfod:

(a) mae'n rhaid i'r sêl gydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau Cyffredinol; ac

(b) mae'n rhaid i’r sêl gael ei defnyddio drwy awdurdod yr ymddiriedolwyr elusen neu bwyllgor o ymddiriedolwyr elusen wedi'i awdurdodi'n briodol gan yr ymddiriedolwyr elusen. Gall yr ymddiriedolwyr elusen benderfynu pwy fydd yn llofnodi unrhyw ddogfen y mae'r sêl wedi'i gosod arni ac oni bai y pennir fel arall caiff ei llofnodi gan ddau o'r ymddiriedolwyr elusen.

**22. Defnyddio cyfathrebu electronig**

**(1) Cyffredinol**

Bydd yr Eisteddfod yn cydymffurfio â gofynion y Darpariaethau Cyfathrebu yn y Rheoliadau Cyffredinol ac yn arbennig:

(a) y gofyniad i ddarparu o fewn 21 diwrnod i unrhyw aelod ar gais gopi caled o unrhyw ddogfen neu wybodaeth a anfonwyd at yr aelod heblaw ar ffurf copi caled;

(b) unrhyw ofynion i ddarparu gwybodaeth i’r Comisiwn mewn ffurf neu ddull arbennig.

**(2) Cyfathrebu gyda’r Eisteddfod**

Gall unrhyw aelod neu ymddiriedolwr elusen yr Eisteddfod gyfathrebu'n electronig â’r Eisteddfod i gyfeiriad a bennwyd gan yr Eisteddfod at y diben hwnnw, ar yr amod bod y cyfathrebu wedi'i ddilysu mewn ffordd sy'n foddhaol i’r Eisteddfod.

**(3) Cyfathrebu o’r Eisteddfod**

(a) Os yw aelod neu ymddiriedolwr elusen yr Eisteddfod wedi darparu i’r Eisteddfod gyfeiriad e-bost neu debyg, cymerir ei fod/ei bod wedi cytuno i dderbyn gohebiaeth gan yr Eisteddfod ar ffurf electronig i’r cyfeiriad hwnnw, oni bai fod yr aelod wedi datgan i’r Eisteddfod ei amharodrwydd i dderbyn gohebiaeth o’r fath yn y ffurf honno.

(b) Gall yr ymddiriedolwyr elusen, yn amodol ar gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol, drwy gyfrwng cyhoeddi ar wefan yr Eisteddfod neu drwy anfon neges e-bost neu gyfrwng cymdeithasol:

(i) roi rhybudd i'r aelodau y cyfeirir atynt yng nghymal 11(3) (Hysbysiad o gyfarfodydd cyffredinol);

(ii) roi rhybudd i ymddiriedolwyr elusen o'u cyfarfodydd yn unol â chymal 19(1) (Galw cyfarfodydd).

(c) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen:

(i) gymryd camau rhesymol i sicrhau bod aelodau ac ymddiriedolwyr elusen yn cael eu hysbysu'n brydlon fod unrhyw rybudd neu gynnig o'r fath wedi cael ei gyhoeddi; ac

(ii) anfon unrhyw rybudd neu gynnig o'r fath ar ffurf copi caled i unrhyw aelod neu ymddiriedolwr elusen sydd heb gydsynio i dderbyn gohebiaeth mewn ffurf electronig.

**23. Cadw Cofrestri**

Mae'n rhaid i'r Eisteddfod gydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau Cyffredinol o ran cadw a chynnig mynediad i gofrestri o'i haelodau a'r ymddiriedolwyr elusen.

**24. Y Cyngor**

24.1 Swyddogaeth y Cyngor yw gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol mewn perthynas â'r Eisteddfod, a gwarchod yr Ymrwymiadau, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

24.2 Cyfansoddir y Cyngor a'i aelodaeth yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

**25. Yr Orsedd a Bwrdd yr Orsedd**

25.1 Cyfansoddir yr Orsedd a Bwrdd yr Orsedd yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

25.2 Bydd Bwrdd yr Orsedd yn gweinyddu gwaith yr Orsedd yn ddarostyngedig i'r Amcanion a'r Rheolau Sefydlog.

**26. Cofnodion**

Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen gadw cofnodion o'r canlynol yr holl:

(1) benodiadau swyddogion a wneir gan yr ymddiriedolwyr elusen;

(2) drafodion yng nghyfarfodydd cyffredinol yr Eisteddfod;

(3) gyfarfodydd yr ymddiriedolwyr elusen a phwyllgorau'r ymddiriedolwyr elusen gan gynnwys:

- enwau'r ymddiriedolwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod;
- benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y cyfarfodydd; a
- lle y bo'n briodol y rhesymau dros y penderfyniadau;

(4) benderfyniadau a wnaed gan yr ymddiriedolwyr elusen heblaw mewn cyfarfodydd.

**27. Cofnodion cyfrifyddu, cyfrifon, adroddiadau a ffurflenni blynyddol, cynnal y gofrestr**

(1) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen gydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 2011 o ran cadw cofnodion cyfrifyddu, paratoi a chraffu ar ddatganiadau o gyfrifon, a pharatoi adroddiadau a ffurflenni blynyddol. Mae'n rhaid i'r datganiadau o gyfrifon, adroddiadau a ffurflenni gael eu hanfon i'r Comisiwn Elusennau, waeth beth fo incwm yr Eisteddfod, o fewn 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol.

(2) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen gydymffurfio â'u rhwymedigaethau i hysbysu'r Comisiwn o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid i fanylion yr Eisteddfod a nodwyd ar y Gofrestr Elusennau Ganolog.

**28. Rheolau Sefydlog**

Gall yr ymddiriedolwyr elusen, o bryd i'w gilydd, ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor, lunio rheolau sefydlog neu is-ddeddfau rhesymol a phriodol y teimlant eu bod yn angenrheidiol neu'n fuddiol er mwyn rheoli a gweinyddu'r Eisteddfod yn briodol, ond mae'n rhaid i reolau sefydlog neu is-ddeddfau o'r fath fod yn gyson ag unrhyw ddarpariaeth yn y cyfansoddiad hwn. Ni fydd y rheolau sefydlog (nac unrhyw newid i'r rheolau sefydlog) yn weithredol nes byddant wedi eu cadarnhau gan Lys yr Eisteddfod mewn cyfarfod cyffredinol. Mae'n rhaid i gopïau o unrhyw reolau sefydlog neu is-ddeddfau o'r fath sydd mewn grym fod ar gael i unrhyw aelod o'r Eisteddfod ar gais.

**29. Anghydfod**

Os oes anghydfod rhwng aelodau'r Eisteddfod ynghylch dilysrwydd neu briodoldeb unrhyw beth sy'n cael ei wneud gan yr aelodau o dan y cyfansoddiad hwn, ac nid oes modd datrys yr anghydfod drwy gytundeb, mae'n rhaid i'r partïon yn yr anghydfod geisio datrys yr anghydfod mewn ewyllys da yn gyntaf drwy gyfeirio'r anghydfod at ganolwr cyn troi at gyfreitha.

**30. Diwygio'r cyfansoddiad**

Fel y darparwyd gan gymalau 224-227 Deddf Elusennau 2011:

(1) Ni ellir diwygio'r cyfansoddiad hwn ond:

(a) drwy gynnig wedi'i gytuno'n ysgrifenedig gan bob aelod o'r Eisteddfod; neu

(b) drwy gynnig wedi'i basio gan fwyafrif o 75% o'r pleidleisiau a gafodd eu bwrw mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau'r Eisteddfod.

(2) Byddai angen cydsyniad ysgrifenedig y Comisiwn Elusennau ymlaen llaw ar gyfer unrhyw newid i gymal 3 (Amcanion), cymal 31 (Dirwyn i ben neu ddiddymu gwirfoddol), y cymal hwn neu unrhyw ddarpariaeth lle y byddai'r newid yn darparu awdurdodiad ar gyfer unrhyw fudd i'w gael gan yr ymddiriedolwyr elusen neu aelodau'r Eisteddfod neu unigolion sy'n gysylltiedig â nhw.

(3) Ni fydd unrhyw ddiwygiad nad yw'n gyson â darpariaethau Deddf Elusennau 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol yn ddilys.

(4) Mae'n rhaid anfon copi o unrhyw gynnig sy'n diwygio'r cyfansoddiad, ynghyd â chopi o gyfansoddiad yr Eisteddfod fel y'i diwygiwyd, i'r Comisiwn o fewn 15 diwrnod o'r ddyddiad pasio'r cynnig. Nid yw'r diwygiad yn weithredol nes ei fod wedi'i gofnodi yn y Gofrestr Elusennau.

**31. Dirwyn i ben neu ddiddymu gwirfoddol**

(1) Fel y darparwyd gan y Rheoliadau Diddymu, gall yr Eisteddfod gael ei ddiddymu gan benderfyniad ei aelodau. Rhaid i benderfyniad gan yr aelodau i ddirwyn i ben neu ddiddymu'r Eisteddfod gael ei wneud:

(a) mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau'r Eisteddfod wedi'i alw yn unol â chymal 11 (Cyfarfodydd cyffredinol o'r aelodau), ar ôl rhybudd o 14 diwrnod o leiaf i'r rhai sy'n gymwys i fod yn bresennol a phleidleisio:

(i) drwy gynnig a basiwyd gan fwyafrif o 75% o'r rhai sy'n pleidleisio, neu

(ii) drwy gynnig a basiwyd gan benderfyniad sy'n cael ei gymryd heb bleidlais heb unrhyw fynegiant o anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn a roddwyd gerbron y cyfarfod cyffredinol; neu

(b) gan gynnig wedi'i gytuno'n ysgrifenedig gan bob aelod o'r Eisteddfod.

(2) Yn amodol ar dalu holl ddyledion yr Eisteddfod:

(a) Gall unrhyw gynnig i ddirwyn yr Eisteddfod i ben, neu ddiddymu'r Eisteddfod heb ddirwyn i ben, gynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddio unrhyw asedau sy'n weddill gan yr Eisteddfod.

(b) Os nad yw'r penderfyniad yn cynnwys darpariaeth o'r fath, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen benderfynu sut y dylid defnyddio unrhyw asedau sy'n weddill gan yr Eisteddfod.

(c) Yn y naill achos neu'r llall mae'n rhaid i'r asedau sy'n weddill gael eu defnyddio ar gyfer dibenion elusennol sydd yr un fath neu'n debyg i rai'r Eisteddfod.

(3) Mae'n rhaid i'r Eisteddfod fodloni gofynion y Rheoliadau Diddymu wrth wneud cais i'r Comisiwn i ddileu'r Eisteddfod o'r Gofrestr Elusennau, ac yn arbennig:

(a) mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen anfon y canlynol gyda'u cais i'r Comisiwn:

(i) copi o'r cynnig a basiwyd gan aelodau'r Eisteddfod;

(ii) datganiad gan yr ymddiriedolwyr elusen bod unrhyw ddyledion a rhwymedigaethau eraill yr Eisteddfod wedi cael eu talu a'u bodloni neu eu darparu ar eu cyfer fel arall yn llawn; a

(iii) datganiad gan yr ymddiriedolwyr elusen sy'n amlinellu sut y mae unrhyw eiddo'r Eisteddfod wedi cael neu'n bwriadu cael ei ddefnyddio cyn ei ddiddymu yn unol â'r cyfansoddiad hwn;

(b) mae’n rhaid i’r ymddiriedolwyr elusen sicrhau bod copi o’r cais yn cael ei anfon o fewn saith diwrnod i holl aelodau a staff yr Eisteddfod, ac i unrhyw ymddiriedolwr elusen yr Eisteddfod oedd heb fod yn gyfarwydd â’r cais.

(4) Os bwriedir dirwyn yr Eisteddfod i ben neu ei diddymu mewn unrhyw amgylchiadau eraill, rhaid dilyn darpariaethau’r Rheoliadau Diddymu.

**32. Dehongli**

Yn y cyfansoddiad hwn:

Ystyr “**Amcanion**“ yw amcanion yr elusen fel y’u diffinnir yng nghymal 3;

Ystyr “**Cyngor**“ yw’r bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol sydd wedi’i sefydlu yn unol â Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod;

Ystyr “**Darpariaethau Cyfathrebu**“ yw Darpariaethau Cyfathrebu yn Rhan 10, Pennod 4 o’r Rheoliadau Cyffredinol;

Ystyr “**Llys yr Eisteddfod**“ yw corff aelodaeth yr Eisteddfod;

Ystyr **“unigolyn cysylltiedig“** yw:

(a) plentyn, rhiant, wyrion, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd yr ymddiriedolwr elusen;

(b) gŵr neu wraig neu bartner sifil yr ymddiriedolwr elusen neu unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (a) uchod;

(c) rhywun sy'n ymgymryd â busnes mewn partneriaeth â'r ymddiriedolwr elusen neu unrhyw unigolyn sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (a) neu (b) uchod;

(ch) sefydliad sydd wedi'i reoli:

(i) gan yr ymddiriedolwr elusen neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (a), (b) neu (c) uchod; neu

(ii) gan ddau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys a fewn is-gymal (ch)(i), gyda'i gilydd

(d) corff corfforaethol lle mae gan:

(i) yr ymddiriedolwr elusen neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (a) i (c) fudd sylweddol; neu

(ii) ddau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is-gymal (d)(i) a chanddynt, gyda'i gilydd, fudd sylweddol;

Mae adran 118 Deddf Elusennau 2011 yn gymwys at ddibenion dehongli'r termau a ddefnyddir yn y cyfansoddiad hwn;

Ysytyr “**Yr Orsedd**“ a “**Bwrdd yr Orsedd**“ yw’r  cyrff perthnasol a sefydlwyd yn unol â Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod;

Ystyr “**pleidlais**“ yw llais neu bleidlais a gyfrifir, fel arfer (ond nid o reidrwydd) yn ysgrifenedig;

Ystyr “**Rheoliadau Cyffredinol**“ yw Rheoliadau (Cyffredinol) Sefydliadau Corfforedig Elusennol 2012;

Ystyr “**Rheolau Sefydlog**“ yw’r rheolau mewnol a wneir gan yr Eisteddfod yn unol â chymal 28;

Ystyr “**Rheoliadau Diddymu**“ yw Rheoliadau (Ansolfedd a Diddymu) Sefydliadau Corfforedig Elusennol 2012;

Ystyr “**ymddiriedolwr elusen**“ yw ymddiriedolwr elusen yr Eisteddfod;

Ystyr “**Ymrwymiadau**“ yw’r datganiad o fwriad mewn perthynas â chyflawni’r Amcanion, sydd i’w gynnwys yn y Rheolau Sefydlog.

Ystyr ‘**cynnwys** ‘ yw ‘cynnwys heb gyfyngiad’ oni nodir yn wahanol.

20 Ionawr 2014